



DG Undeb Sy'n Newid: Ein Dyfodol
UK's Changing Union: Our Future

Agweddau Pobl Ifanc Tuag at Ddatganoli yng Nghymru

Papur wedi'i baratoi gan yr Athro Roger Scully
ar gyfer *Ein Dyfodol*

Gorffennaf 2013

Partneriaeth y DG Undeb Sy'n Newid

Mae prosiect y DG Undeb Sy'n Newid yn bartneriaeth ar y cyd rhwng Canolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd, y Sefydliad Materion Cymreig a Cymru Yfory. Mae'r prosiect yn edrych i ymdrin â dyfodol yr Undeb a setliad datganoli Cymru drwy ymchwil a ymrwymo a rhanddeiliaid cymdeithas sifil a sefydliadau cyhoeddus. Rydym wedi ein cyllido gan Ymddiriedolaeth Elusennol Joseph Rowntree a Sefydliad Nuffield.


Rhan o graidd prosiect yr Undeb Sy'n Newid yw Ein Dyfodol, sydd yn rhoi cyfle i bobl ifanc ddatblygu'u syniadau, cymryd rhan yn y drafodaeth a dylanwadu ar benderfyniadau. Mae rhan yma o'r brosiect yn cael ei ddylunio a'i arwain gan bobl ifanc.

Mae'r Sefydliad Nuffield yn ymddiriedolaeth elusennol sydd yn ceisio gwella lles cymdeithasol. Mae'n cyllido ymchwil a dyfeisgarwch mewn addysg a pholisi cymdeithasol a hefyd yn gweithio i adeiladu cap ásiti mewn ymchwil addysg, gwyddonol a gwyddorau cymdeithasol. Mae'r Sefydliad Nuffield wedi cyllido'r prosiect yma, ond barn yr awduron sydd yma ac nid ydynt yn adlewyrchu barn y Sefydliad. Mae fwy o wybodaeth ar gael ar www.nuffieldfoundation.org

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Agweddau Pobl Ifanc Tuag at Ddatganoli
3. Sut Mae Agweddau Wedi Newid Dros Amser?
4. Cymru a'r Alban: Sut mae Agweddau'n Cymharu?
5. Crynodeb

Atodiad: Y Dystiolaeth




1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn amlinellu agweddau pobl ifanc yng Nghymru tuag at ddatganoli. Yng nghydestun y drafodaeth hon, diffiniwn pobl ifanc fel unigolion sydd rhwng ystod oedran 18-35.¹ Caiff eu hagweddau eu cymharu drwy gydol yr astudiaeth gyda charfannau oed hŷn.

Daw'r dystiolaeth ar gyfer y papur yma o'r prif arolygon academaidd a gynhaliwyd yng Nghymru rhwng 1997-2013. Ceir manylion pellach ynglŷn â'r arolygon hyn yn yr Atodiad.

¹ Ychydig o dystiolaeth yn unig sydd ar gael ar gyfer Cymru ynglŷn ag agweddau gwleidyddol y sawl sydd dan 18, am ddau reswm: i. Mae'r rhan fwyaf o arolygon ynglŷn ag agweddau gwleidyddol ac arferion neu fwriadon pleidleisio yn canolbwyntio'n ddealladwy ar y boblogaeth sydd mewn oed pleidleisio; ii. Mae Cyfreithiau a chodau ymarfer ynglŷn ag amddiffyn plant yn golygu bod cynnal arolygon ynglŷn ag agweddau gwleidyddol y sawl sydd dan 16, yn enwedig, yn anodd ei wneud.



2. Agweddau Pobl Ifanc Tuag at Ddatganoli

Mae yna nifer o ffyrdd posib o holi ynglŷn ag agweddau tuag at ddatganoli. Byddwn yn canolbwyntio yma ar dri math sefydledig o gwestiwn.

Ers 1997, mae pob arolwg mawr wedi cynnwys o leiaf un ffurf o gwestiwn ynglŷn â 'Ffafiaeth Gyfansoddiadol': lle bydd ymatebwyr yn cael set o opsiynau ynglŷn â sut gallai Cymru gael ei rheoli, a gofyn iddynt ddangos p'un fyddai orau ganddyn nhw. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhan fwyaf o arolygon wedi dilyn y fformat canlynol:


P'un o'r datganiadau hyn sydd agosaf at eich barn?

- Ni ddylid cael llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru
- Dylai fod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru lai o bwerau
- Dylem adael pethau fel maen nhw nawr
- Dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru fod â mwy o bwerau
- Dylai Cymru ddod yn annibynnol, ar wahân i'r DG
- Ddim yn Gwybod

Mae Ffigur 1 yn dangos canfyddiadau ar gyfer y cwestiwn yma yn 2012, gan ddangos y gefnogaeth i bob opsiwn ymhlith ymatebwyr rhwng 18-35 oed a hefyd y sawl sydd yn 36 oed ac yn hŷn. Fel y gellir gweld, mae ymatebwyr iau yn fwy tebygol o ddewis 'Ddim yn Gwybod' yn ogystal â 'fel maen nhw nawr'. Mewn gwrthgyferbyniad i hyn, mae pleidleiswyr hŷn yn fwy tebygol o ddewis 'Dim Datganoli' yn ogystal â 'Mwy o bwerau', a hyd yn oed 'Annibyniaeth'. Mae hyn yn awgrymu mai bach iawn yw'r gwahaniaeth mewn lefelau o gefnogaeth i ddatganoli rhwng pleidleiswyr hŷn ac iau; ceir y gwahaniaeth yn y ffaith bod gan bleidleiswyr hŷn farn fwy clir a sefydledig.


Ail ffordd o holi ynglŷn ag agweddau tuag at ddatganoli yw gofyn i ymatebwyr pa 'lefel o lywodraeth ddylai gael y mwyaf o ddylanwad ar sut mae Cymru'n cael ei rheoli.' Caiff ymatebwyr bedwar dewis rhwng: Cynghorau lleol, Y Cynulliad/Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DG yn San Steffan a'r Undeb Ewropeaidd. Mae ffigur 2 yn dangos y canran o ymatebwyr yn 2012 a ddewisodd pob opsiwn, gan wahaniaethu unwaith eto rhwng y sawl sydd rhwng 18-35 oed a'r sawl sydd yn 36 oed neu'n hŷn.

Ffigur 1: Ffafiaeth Gyfansoddiadol yn ôl Oedran (%), Cymru 2012




Mae'r canlyniadau yma'n debyg iawn i'r rhai a gafwyd yn y cwestiwn blaenorol, gan fod pleidleiswyr ifanc yn llawer mwy tebygol o ddewis yr opsiwn 'Ddim yn Gwybod'. [Fodd bynnag, mae pleidleiswyr hŷn yn ymddangos fel petaent ychydig yn fwy cefnogol o'r syniad o lywodraeth ddatganoledig fel y pwysicaf i reoli Cymru.

Ffigur 2: Y Mwyaf o Ddylanwad dros 'Sut mae Cymru'n cael ei Rheoli' (%) Cymru 2012




Mae nifer o arolygon diweddar hefyd wedi holi ynghylch pa lefel o lywodraeth a ddylai gael y mwyaf o ddylanwad dros feysydd polisi penodol. Mae Ffigur 3 yn dangos y ganran yn 2013 a fynegodd eu bod yn *cefnogi* rhoi cyfrifoldeb dros sawl maes polisi i lefel ddatganoledig o lywodraeth, gydag ymatebwyr eto wedi eu gwahanu yn 18-35 oed a 36 oed a hŷn. Mae'r ffigur yn dangos bod pleidleiswyr hŷn yn fwy brwdfrydig na rhai iau dros ddatganoli cyfrifoldebau ym mhob maes y holwyd amdanynt, gydag eithriadau ymylol i 'Bolisi Amddiffyn a Thramor' a 'Threth'. Fodd bynnag mae yma ddau gafeat. Yn gyntaf, mwyafrifoedd bychain o bleidleiswyr iau sydd yn cefnogi llywodraeth ddatganoledig fel y lefel a ddylai gael y mwyaf o ddylanwad. Yn ail, nid yw'r lefel is o gefnogaeth ymhlith pleidleiswyr iau dros ddatganoli'r polisiâu yma yn adlewyrchu unrhyw fwy o frwdfrydedd dros ganiatáu i lywodraeth y DG yn San Steffan (na'r Cynghorau na'r UE) i drafod grym yma chwaith: unwaith eto, y prif wahaniaeth yw bod pleidleiswyr ifanc yn fwy tebygol o ddewis opsiwn 'Ddim yn Gwybod'.

Ffigur 3: Y Mwyaf o Ddylanwad dros Feysydd Polisi Penodol (%) Cymru 2013



Mae cysondeb y dystiolaeth a geir o'r tri gwahanol ffurf ar gwestiwn a ddadansoddwyd yma yn cynyddu ein hyder yn y casgliad cyffredinol sy'n dod i'r amlwg. Nid yw pobl ifanc yng Nghymru yn fwy cefnogol at ddatganoli na charfannau hŷn. Yn wir, os unrhyw beth, y gwrthwyneb sy'n wir. Ond nid yw hyn yn adlewyrchu bod mwy o wrthwynebiad bwriadol tuag at ddatganoli ymhlith pobl ifanc; yn hytrach, mae'n awgrymu eu bod yn llai sicr eu barn ac yn fwy tebygol i ymateb i gwestiynau ar y pwnc gyda 'Ddim yn Gwybod' fel ymateb.




3. Sut Mae Agweddau Wedi Newid Dros Amser?

Cafwyd newidiadau clir a sylweddol mewn agweddau tuag at ddatganoli yng Nghymru ers refferendwm 1997. Gostyngodd y gwrthwynebiad tuag at ddatganoli yn sylweddol yn ystod y blynyddoedd yn dilyn y bleidlais 'ie' a gafwyd gyda mwyafrif cul iawn; tra bod cefnogaeth tuag at annibyniaeth heb gynyddu o gwbl, mae barn glir y mwyafrif ym mhob arolwg barn a gynhaliwyd ers 2003 o blaid rhyw ffurf ar lywodraeth ddatganoledig i Gymru. Ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cefnogaeth gliriach wedi amlygu dros gryfhau cwmpas a phwerau'r sefydliadau datganoledig hynny.²

I ba raddau y bu'r newidiadau hyn mewn agwedd yn rai cyffredinol i bob grŵp oed? A yw agweddau pobl ifanc wedi newid i raddau mwy neu lai? Gallwn ateb y cwestiynau hyn drwy edrych ar ymatebion i un math o gwestiwn ffafriaeth gyfansoddiadol a ofynnwyd mewn sawl arolwg rhwng 1997-2011. Mae Ffigur 4a yn dangos ymatebion i'r cwestiwn yma yn 1997; mae'r ffigur, fel o'r blaen, yn cymharu ymatebwyr yn y grŵp 18-35 oed a'r sawl sy'n 36 oed a hŷn. Gwelwn eto bod ymatebwyr iau yn fwy tebygol o ddewis yr opsiwn 'Ddim yn Gwybod'. Fodd bynnag y gwahaniaeth mwyaf trawiadol rhwng y ddau grŵp oedran oedd bod ymatebwyr ifanc yn 1997 yn llawer fwy tebygol na'r rhai hŷn o gefnogi annibyniaeth, a bod pobl hŷn lawer yn fwy tebygol o wrthwynebu datganoli'n llwyr.

Ffigur 4a: Dewis cyfansoddiadol wrth oedran (%) 1997, Cymru




² Gweler y drafodaeth yn Richard Wyn Jones a Roger Scully, *Wales Says Yes: Devolution and the 2011 Welsh Referendum* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2012), pennod 3.


³ Mae'r cwestiwn yma'n debyg i un a gafodd ei drafod yn Nhabl 1 wrth gyflwyno cyfres o opsiynau cyfansoddiadol i ymatebwyr ar gyfer Cymru ac yna gofyn iddyn nhw pa ddewis oedd yn well ganddyn nhw. Mae'r cwestiwn yn wahanol yn y modd y caiff yr opsiynau a gyflwynwyd eu labelu.

Pan fyddwn yn archwilio Ffigur 4b (sydd yn dangos ymatebion i'r un cwestiwn yn 2011) gwelwn fod y farn gyffredinol wedi newid, gyda'r lefel o wrthwynebiad tuag at ddatganoli'n gostwng a chefnogaeth tuag at yr opsiwn o gael Senedd ar y llaw arall yn cynyddu. Tra bod ymatebwyr hŷn yn fwy tebygol o wrthwynebu unrhyw ffurf ar ddatganoli, mae'r gwahaniaethau rhyngddynt hwy a phobl iau wedi lleihau rhyw fymryn; mae pobl iau yn parhau i fod yn fwy tebygol o ddewis yr ymateb 'Ddim yn Gwybod'.

Ffigur 4b: Ffafiaeth Gyfansoddiadol yn ôl Oedran (%) 2011, Cymru



Bu'r blynyddoedd rhwng 1997 -2011 yn dyst i unffurfio agweddau tuag at ddatganoli yng Nghymru mewn nifer o ffyrdd eraill (fel hunaniaeth genedlaethol a daearyddiaeth). Gostgyngodd gwrthwynebiad tuag at fodolaeth Cynulliad Cenedlaethol ymhob man, ond gostyngodd yn arbennig o gyflym yn yr ardaloedd lle gwelwyd y gwrthwynebiad mwyaf yn flaenorol. Adlewyrchwyd y tueddiadau hyn yng nghanlyniad refferendwm 2011. Mae'r dystiolaeth yma'n awgrymu fod hyn hefyd yn wir i raddau gydag oedran.





4. Cymru a'r Alban: Sut mae Agweddau'n Cymharu?

Sut mae agweddau pobl ifanc yng Nghymru tuag at ddatganoli yn cymharu ag agweddau pobl yn yr Alban? Y gwahaniaeth cyntaf ac efallai'r un mwyaf amlwg, rhwng y ddwy genedl, ond sydd ddim yn benodol i bobl ifanc, yw bod 'craidd disgyrchiant' y farn gyhoeddus yn yr Alban mewn lle tra gwahanol nac yng Nghymru. Mae'r gefnogaeth tuag at annibyniaeth yn yr Alban yn sylweddol uwch, tra bod y gefnogaeth i 'ddim datganoli o gwbl' lawer yn is. Gellir gweld hyn o'r canfyddiadau a gyflwynwyd yn Ffigur 5, sydd yn dangos ymatebion i gwestiwn ar ffafriaeth gyfansoddiadol debyg i'r sawl a adroddwyd am Gymru yn Ffigurau 1 a 4b.

A yw'r Alban yn gweld gwahaniaethau tebyg mewn agweddau yn ôl grŵp oedran fely gwelir yng Nghymru? Er mwyn ateb at y cwestiwn hwn, mae'r ffigur eto'n cymharu'r sawl sydd rhwng 18-35 oed gydag ymatebwyr hŷn. Er bod geiriad rhai o'r cwestiynau yn golygu na ellir cymharu'n union, gwelwn ganfyddiadau tebyg i Gymru yn y modd y mae pobl iau yn fwy ansicr (h.y. yn fwy tebygol o ddewis yr opsiwn 'Ddim yn Gwybod'). Mae'r canfyddiadau hefyd yn debyg i Gymru yn y modd y gwelwn ond gwahaniaethau bychan rhwng ymatebwyr hŷn ac iau.

Tabl 5: Ffafriaeth Gyfansoddiadol yn ôl Oedran (%) 2011, Yr Alban






5. Crynodeb

Er bod pobl iau yn fwy tebygol o gefnogi datganoli yn refferendwm 1997,⁴ mae'r dystiolaeth a gyflwynir yma'n awgrymu mai bychan iawn yw'r gwahaniaeth erbyn hyn yn agweddau aelodau hŷn ac iau'r etholaeth tuag at ddatganoli yng Nghymru. Y prif wahaniaeth rhwng y carfannau oed yw bod pleidleiswyr iau yn dueddol o fod yn fwy tebygol o ddewis yr opsiwn 'Ddim yn Gwybod' mewn perthynas â'r cwestiynau amrywiol a ddefnyddiwyd mewn gwahanol arolygon ar y pwnc.

Mae hyn yn debygol o adlewyrchu'r lefelau is o ymglymiad a welir yn aml ymhlith pobl iau gyda 'gwleidyddiaeth gonfensiynol' - rhywbeth sydd hefyd yn amlygu ei hunyn y cyfraddau is o bobl sy'n dewis pleidleisio. Yn ogystal â hyn, gall cymhlethdod trefniadau datganoli yng Nghymru fod yn rhwystr pellach i'r sawl sydd eisoes yn dueddol o beidio ymddiddori mewn gwleidyddiaeth gonfensiynol.

Tu hwnt i'r gwahaniaeth yma, gwelwn ddarlun o gefnogaeth gyffredinol tuag at ddatganoli ymhlith pobl Cymru, yn hen ac ifanc. Mae gwrthwynebiad tuag at ddatganoli erbyn hyn wedi ei gyfyngu i leiafrif clir - tua un ymhob pump o'r boblogaeth - tra bod cefnogaeth i annibyniaeth yn llai cyffredin byth (yn wahanol i'r Alban). Mae'r patrwm yma o agweddau wedi bod yn un eithaf sefydlog ers sawl blwyddyn nawr. Mae datganoli wedi sefydlu ei hun ymhlith ewyllys pobl Cymru a does dim arwydd o'r dystiolaeth sydd ar gael o agweddau pleidleiswyr iau y bydd hyn yn newid.

⁴ Gweler Richard Wyn Jones a Dafydd Trystan, 'The 1997 Welsh referendum vote' yn (B. Taylor a K. Thomson, eds.) *Scotland and Wales: Nations Again?* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 1999).



Atodiad: Y Dystiolaeth

Mae'r papur hwn yn tynnu ar sawl arolwg:

- Astudiaeth Refferendwm Cymru 1997. Cafodd hwn ei ariannu gan Gyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol y DG, gyda gwaith maes a gafodd ei gynnal wyneb yn wyneb gan Y Ganolfan Genedlaethol dros Ymchwil Gymdeithasol. Maint y sampl oedd 686.
- Ton cyn-etholiad Astudiaeth Etholiad Cymru 2011. Cafodd hwn ei ariannu gan Gyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol y DG, gyda gwaith maes yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y rhynggrwyd gan YouGov UK. Maint y sampl oedd 2359.
- Astudiaeth Etholiad yr Alban 2011. Cafodd hwn ei ariannu gan Gyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol y DG, gyda gwaith maes wedi ei gynnal gan YouGov UK drwy gyfrwng y rhynggrwyd. Maint y sampl oedd 2046.
- Arolygon a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2012 a mis Chwefror 2013 gan YouGov UK mewn cydweithrediad â Chanolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Cymru. Cafodd gwaith maes ei gynnal drwy gyfrwng y rhynggrwyd. Maint y sampl yn arolwg mis Ebrill 2012 oedd 1039; ym mis Chwefror 2013, maint y sampl oedd 1007.

Cafodd y data o'r arolygon hyn ei bwysoli yn ystod y dadansoddiad er mwyn sicrhau fod y samplau'n gynrychioladol o'r etholaeth mewn oed.

Papur Ymchwil

Agweddau Pobl Ifanc Tuag at Ddatganoli yng Nghymru
